**EITEM AR YR AGENDA: 12**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**9fed Mai 2011**

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân a Colin Everett , Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Cynghori aelodau ar y cynnydd hyd hyn ar yr ymarfer hunan asesiad sy'n cael ei wneud er mwyn paratoi ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## Cefndir

2 Mae newidiadau i Reolaethau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2005 yn gofyn i Ddatganiad o Gyfrifon Blynyddol yr Awdurdod gynnwys Datganiad Llywodraethu. Mae hwn yn cymryd lle'r Datganiad o Reolaeth Fewnol yn y Datganiad o Gyfrifon.

3 Diben y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw i adrodd yn gyhoeddus ar sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio gyda'i god ei hunan yn flynyddol. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am sut mae wedi monitro effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu yn y flwyddyn honno ac ar unrhyw newidiadau arfaethedig yn y cyfnod sydd i ddod.

## Cynnydd hyd hyn

4 Yn dilyn cymeradwyaeth gan Aelodau o God Llywodraethu Lleol yr Awdurdod yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mawrth, mae swyddogion wedi cychwyn y broses hunan asesu i fesur perfformiad yr Awdurdod yn erbyn yr amcanion arbennig.

5 Mae'r Rheolwr Cyllid, ynghyd â Chyfrifydd y Gwasanaeth Tân yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod yn cydweithio i gasglu tystiolaeth a mesur os yw'r Awdurdod yn cydymffurfio gyda'i amcanion llywodraethu ei hunan.

6 Ar ôl cwblhau'r ymarfer yma, byddant yn gallu dod â'u darganfyddiadau at ei gilydd a chynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol fydd yn cael ei gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifol 2010-2011.

7 Cafodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân gyfarfod gyda Chlerc yr Awdurdod yn ddiweddar i archwilio'r gwaith oedd wedi ei wneud hyd hyn gan wneud argymhellion pellach fel bo'r angen.

8 Bydd y swyddogion nawr yn ailystyried eu gwaith i gynnwys yr argymhellion newydd ac i amlygu unrhyw faterion sydd angen eu gweithredu yn y dyfodol.

9 Mae cynnydd yr ymarfer hunan asesu yma'n cael ei rannu gyda Swyddfa Archwilio Cymru yn ogystal ac adran Archwilio Mewnol yr Awdurdod yng Nghyngor Bwrdeistref Sir Conwy.

10 Mae copi o gynllun gweithredu'r swyddogion ynghlwm sy'n berthnasol i'r ymarfer hunan asesiad.

**Argymhelliad**

11 Fod Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynllun gweithredu ynghlwm.

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

**CYNLLUN GWEITHREDU SY'N CODI O ARCHWILIAD Y DIRPRWY BRIF SWYDDOG TÂN A'R CLERC**

| EGWYDDOR 1 | CYFLAWNWYD HYD HEDDIW |
|---|---|
| Cael copi o'r Cynllun Lleihau Risg a Gwella Cyfunol | √ |
| Cael tystiolaeth ar amlder a chanlyniadau parhad busnes. | Cysylltu gyda Rheolwr yr Ystafell Reoli |
| Adnabod pa mor gynhwysfawr yw Strategaeth Partneriaeth y Gwasanaeth. | Cysylltu gyda'r Rheolwr Partneriaeth |
| Cynnwys tystiolaeth o'r broses gosod cyllideb, gan gynnwys cofnodion gweithgor y gyllideb, a llyfryn opsiynau'r gyllideb i ddangos fod yr Awdurdod yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau ac yn dangos gwerth ardderchog am arian. | √ |
| **EGWYDDOR 2** | |
| Cynnwys disgrifiadau swydd Aelodau sydd wedi eu cynnwys ym Mreinlen yr Aelodau. | √ |
| Canfod pa mor aml mae'r Cynllun Dirprwy i Swyddogion yn cael ei ddiweddaru. | √ |
| Canfod copi o'r strategaeth cyfathrebu gan gynnwys cyfathrebiadau cyhoeddus ac ymgysylltu yn ymwneud ag atal. | Cysylltu gyda'r Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol |
| Tystiolaeth o'r ymgynghoriad Cynllun Lleihau Risg. | Cysylltu gyda'r Rheolwr Cynllunio Corfforaethol. |
| **EGWYDDOR 3** | |
| Canfod cofrestr o ddatganiadau o fuddion a thrafodion trydydd parti a sicrhau fod holl swyddogion/aelodau'n cyflwyno eu dychweliadau'n flynyddol ar ddiwedd y flwyddyn. | I'w gael gan Gyfrifydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cychwyn yr hyrwyddiad o'r Polisi Chwythu Chwiban ar y fewnrwyd. | Cysylltu gyda'r Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol. |

| EGWYDDOR 4 | |
|---|---|
| Tystiolaeth fod pob cyfarfod allweddol yn gyhoeddus ac yn cael eu symud o gwmpas Gogledd Cymru. | √ |
| Cael cofrestr o fuddiannau Aelodau ac Uwch Reolwyr a chanfod os yw'n gyflawn. | I'w wneud |
| Canfod pa ddogfennaeth Gwasanaeth sy'n nodi fod y Gwasanaeth yn gweithredu o fewn ei fframwaith cyfreithiol. | I'w archwilio |
| **EGWYDDOR 5** | |
| Tystiolaeth o'r broses ymgynghori staff, gan gynnwys y seminar Rheolwyr Uwch a Canol, ymweliadau gorsaf a chyfarfodydd undeb ffurfiol. | √ |
| Pwysleisio'r Cynllun Iaith Gymraeg, cyfarfodydd dwyieithog a hyfforddiant iaith fel rhan o'r dystiolaeth am `annog cynrychiolaeth o bob sector o'r gymuned a wasanaethwn." | Cysylltu gyda'r Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol |
| **EGWYDDOR 6** | |
| Adnabod mesurau ar wahân i staff ac ymgynghoriad undeb | √ |
| Adnabod tystiolaeth o wybodaeth a chysylltiadau sy'n cael eu gwneud drwy waith diogelwch cymunedol, sydd wedi dylanwadu ar benderfyniadau polisi. | I'w wneud |
| Cael tystiolaeth ar gynnal cysylltiadau gyda phartneriaethau allweddol (partneriaid statudol rhanbarthol) | I'w wneud |